Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU

Gwybodaeth ar gyfer darpar rieni mabwysiadol

SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU: GWYBODAETH AR GYFER DARPAR RIENI MABWYSIADOL

Rydych chi wedi ymgeisio i ddod yn rhiant mabwysiadol ac ar fin dechrau Cam 2 yn y broses asesu. Byddwch eisoes wedi clywed am 'SCC', naill ai yn ystod digwyddiad gwybodaeth, neu wrth ddarllen rhai o'r deunyddiau a ddarparwyd. Mae'r daflen hon yn esbonio beth yw 'SCC' ac mae'n eich gwahodd i ystyried a ydych chi eisiau gwybod mwy amdano ai peidio.

Beth yw Sefydlogrwydd Cynnar Cymru?

I'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru, pan fyddant yn cael eu symud wrth eu teulu biolegol am y tro cyntaf, naill ai ychydig cyn achos gofal, neu ar ddechrau achos gofal, maent yn cael eu lleoli gydag aelodau o'r teulu neu mewn lleoliad maeth byrdymor gyda gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo. Os mai cynllun yr awdurdod lleol, a gadarnhawyd gan y llys, yw i'r plentyn gael ei ailuno gyda'r rhieni biolegol neu leoli gydag aelod o'r teulu, yna mae'r plentyn yn symud o'r lleoliad maeth ar ddiwedd yr achos. Os yw'r llys yn derbyn y cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu, yna mae'r gofalwr maeth yn gofalu am y plentyn yn ystod y broses o symud at y lleoliad mabwysiadu.

Gyda SCC, mae'r gofalwyr maeth sy'n cymryd y plentyn ar ddechrau'r achos, hefyd yn ddarpar rieni mabwysiadol sydd wedi cael eu cymeradwyo. Maent fel unrhyw ofalwyr maeth eraill, yn gofalu am y plentyn, yn hwyluso cyswllt gyda'r teulu biolegol ac yn cymryd rhan yn adolygiadau derbyn gofal y plentyn. Os oes cynllun gofal i ailuno'r plentyn neu ei leoli gydag aelod o'r teulu, yna maent yn helpu'r plentyn i symud at y teulu biolegol. Os yw'r cynllun gofal yn gynllun ar gyfer mabwysiadu, yna mae'r plentyn yn aros gyda'r gofalwyr maeth ac mae'r gofalwyr maeth yn dod yn rhieni mabwysiadol iddo.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r plentyn?

Y fantais fawr i'r plentyn yw nad oes rhaid iddo fynd trwy'r trawma o symud o'r lleoliad maeth at y lleoliad mabwysiadu os yw'r cynllun gofal yn dod yn gynllun mabwysiadu, ac felly nid yw'n gorfod gadael y bobl y mae wedi ffurfio cwlwm gyda nhw, gan ei fod yno'n barod.

Gyda rhai plant, mae yna risg fechan y byddant yn dychwelyd at y teulu biolegol; gydag eraill mae yna fwy o siawns o ailuno neu leoli'r plentyn gydag aelod o'r teulu ehangach. Er bod nifer y plant sy'n dychwelyd at y teulu biolegol neu'n cael eu lleoli gydag aelod o'r teulu, yn fach, ni ellir gwarantu na fydd y plentyn yn dychwelyd a rhaid bod gofalwyr SCC yn glir eu bod yn barod i gymryd y risg.

Beth mae hyn yn ei olygu i ni?

Felly pam fyddai unrhyw ddarpar fabwysiadwyr eisiau cymryd y risg yna? Mae llawer o ddarpar fabwysiadwyr yn gallu gweld y budd i'r plentyn ac yn barod i gymryd y risg ar ran y plentyn, gyda chefnogaeth. Gyda babanod sy'n cael eu symud oddi wrth eu rhieni biolegol yn fuan wedi'r enedigaeth, mae gan ofalwyr SCC y boddhad o ofalu am faban newydd-anedig (er, fe fyddwch chi'n gwybod o'r hyfforddiant paratoi fod yna risg wrth gymryd babanod bach iawn, lle nad yw'n bosibl gwybod beth fydd eu llwybr datblygiadol); gyda phlant hŷn, mae ganddynt y boddhad o ddarparu gofal o safon uchel iawn ar gyfer y plentyn ar gam cynharach yn eu profiad gofal, beth bynnag fydd y cynllun gofal terfynol.

Profiad lleoliadau sefydlogrwydd cynnar mewn rhai ardaloedd yn Lloegr, lle mae'n arfer cyffredin gosod plant gyda gofalwyr maeth sydd hefyd wedi'u cymeradwyo fel rhieni mabwysiadol, yw bod mabwysiadwyr/gofalwyr yn cofleidio'u rôl fel gofalwyr maeth. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn aros yn y lleoliad hwnnw a'r plentyn yn dod yn blentyn cyfreithiol iddyn nhw unwaith y mae'r llys yn cadarnhau'r cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu. Mae'r rheiny sy'n mabwysiadu yn teimlo bod y cyfle i gwrdd â'r rheini biolegol, mewn cyfarfodydd cyswllt ac adolygu, yn help mawr wrth iddyn nhw siarad â'r plentyn am y teulu biolegol yn nes ymlaen. Yn anad dim, maent wedi atal y trawma a'r ymyrraeth â bywyd y plentyn, sy'n digwydd pan fydd y plentyn yn gorfod symud o'r lleoliad maethu i'r lleoliad mabwysiadu.

Y ffordd ymlaen

Nid yw bod yn ofalwr SCC yn addas i bawb. Ond, os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am hyn, fel opsiwn, gallwch gofrestru gyda'ch asiantaeth i gael cwrs hyfforddiant o bell o'r enw "Ydy SCC yn iawn i chi?'. Mae'n gwrs hanner-diwrnod a bydd yn edrych yn fanylach ar rôl gofalwr maeth SCC. Ar ddiwedd y cwrs hwnnw, efallai y penderfynwch chi nad yw SCC i chi, ond o leiaf y byddwch chi wedi archwilio'r opsiwn. Ar ôl yr hanner diwrnod hwn, os oes diddordeb gennych o hyd, gallwch gymryd rhan mewn cwrs undydd sy'n eich paratoi chi at fod yn ofalwr maeth. Bydd hyn i gyd yn cael ei esbonio'n fanwl yn ystod y cwrs archwilio hanner-diwrnod.

Os oes diddordeb gennych, siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu, a fydd yn gallu trafod hyn yn fanylach gyda chi a threfnu lle ar y cwrs hanner-diwrnod os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth.

Cofiwch: Dylai fod rhybudd mabwysiadu ynghlwm wrth bob un o ddogfennau SCC

Sut y mae Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn wahanol i fabwysiadu traddodiadol?

Mabwysiadu Traddodiadol	Sefydlogrwydd Cynnar Cymru
Byddwch yn clywed am blant y mae'r llys wedi penderfynu ar gynllun mabwysiadu ar eu cyfer, yn unig, ac yn cael eich paru gyda'r plant hyn yn unig. Bydd y llys wedi rhoi "Gorchymyn Lleoli" gan roi pŵer i'r Awdurdod Lleol leoli'r plentyn gyda darpar rieni mabwysiadol sydd wedi cael eu cymeradwyo. Felly, mae gennych fwy o sicrwydd y bydd y plentyn sy'n cael ei leoli gyda chi yn aros gyda chi.	Os nad yw plentyn yn gallu aros gyda rhieni, mae'n symud i mewn gyda gofalwyr SCC ar bwynt cynnar iawn, tra bod y llys yn dod i benderfyniad am ei ddyfodol. Efallai y bydd y llys yn penderfynu y dylai'r plentyn fynd yn ôl at ei rieni, neu at aelod o'r teulu ehangach, ac, os felly, cytunir ar gynllun ailuno a bydd y gofalwyr SCC yn cefnogi'r cynllun hwnnw. Os yw'r llys yn penderfynu ar gynllun mabwysiadu, mae'r plentyn yn aros gyda'u gofalwyr SCC ac mae'r gofalwyr SCC yn symud yn hwylus at fod yn ddarpar fabwysiadwyr (yn dilyn y Panel Paru a phenderfyniad y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr asiantaeth). Bydd y plentyn yn gallu aros gyda'i ofalwyr Sylfaen Diogel lle bydd wedi dechrau ffurfio cwlwm.
Mae'r plentyn yn ansicr ac yn gorfod byw gyda'r posibilrwydd y bydd yn symud sawl gwaith mewn gofal maeth tra bod penderfyniadau'n cael eu gwneud. Wrth iddo ddechrau setlo mewn gofal maeth, mae'n gorfod delio hefyd â'r ansicrwydd o orfod symud eto, pan fydd hyn yn digwydd, a'r ansicrwydd ynghylch pa fath o bobl fydd y teulu newydd.	Gofalwyr SCC sydd â'r ansicrwydd ac nid y plentyn. Er mai darpar fabwysiadwyr ydych chi yn anad dim, bydd y plentyn yn cael ei leoli gyda chi fel gofalwyr maeth. Bydd angen i chi ddeall a derbyn y ffaith efallai na fyddwch chi fyth yn fwy na gofalwr maeth i'r plentyn oherwydd gallai ddychwelyd at ei rieni neu aelod o'r teulu ehangach.
Bydd y plentyn wedi treulio amser gyda gofalwyr maeth ac, o bosibl, aelodau o'r teulu ehangach, ac felly bydd gennych lawer o wybodaeth am y plentyn, yr hyn mae'n ei hoffi neu ei gasáu, arferion, pethau sy'n ei sbarduno ac yn ei dawelu, a beth sydd angen arno i'w helpu i barhau i adfer ac i dyfu. Fe fydd cyfleoedd cyn i chi gael eich paru i gwrdd â nifer o bobl sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r plentyn, ac i glywed ganddynt, a bydd hyn yn gymorth i chi ddeall effaith profiadau cynnar y plentyn.	Pan fydd y plentyn yn dod yn syth o'i gartref neu o'r ysbyty ar ôl cael ei eni, efallai y bydd gwybodaeth gyfyngedig amdano, ei iechyd a'i ddatblygiad, a'i brofiadau cynnar. Bydd angen i chi fod yn gallu ymdopi â'r ansicrwydd hwn, a'i dderbyn, felly. Byddwch yn cael cymaint o wybodaeth ag sydd gan y gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, bob tro, ac yn cael eich cefnogi i ddeall beth mae hyn yn ei olygu i'ch plentyn, ac i chi.
Mae'n debygol y bydd penderfyniadau wedi cael eu gwneud am gadw cysylltiad gyda theulu biolegol, felly gallwch ystyried a ydy'r trefniadau hyn yn rhai y gallwch chi ymrwymo iddynt. Mae yna gydnabyddiaeth eang i fuddion hirdymor cynnal cysylltiad gyda'r teulu biolegol a bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu hefyd yn meddwl am yr anghenion y mae'r plentyn yn debygol o'u cael a sut y bydd y rhain yn newid wrth iddo fynd yn hŷn. Gwelir cyfarfodydd rhwng rhieni biolegol (ac aelodau eraill y teulu biolegol) fel rhan normadol o'r broses fabwysiadu yng Nghymru, onid oes rhesymau amlwg pam nad yw hyn yn gallu digwydd.	Bydd cyswllt gyda rhieni ac, o bosibl, aelodau eraill o'r teulu, yn rhan o broses benderfynu'r llys ac mae'n debygol o fod yn rheolaidd. Os yw'n ddiogel ac yn bosibl, byddwch yn cael eich cynnwys yn y cyswllt rhwng y plentyn a'r teulu, efallai ar ddechrau a diwedd pob sesiwn, neu trwy lyfr trosglwyddo. Byddwch yn cwrdd â rhieni, os nad oes rhesymau clir pam na ddylai hyn ddigwydd, ac yn cael eich annog i ddatblygu perthynas gyda nhw, oherwydd rydym yn gwybod bod hyn yn gosod sylfeini positif ar gyfer unrhyw gyswllt yn y dyfodol, sydd er lles pennaf y plentyn.

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Sut fydda' i'n cael fy mharatoi i fod yn ofalwr SCC?

Yn gyntaf, byddwch yn cael cwrs hanner-diwrnod ar-lein (gweminar fyw) o'r enw 'A ydy SCC yn iawn i chi?'. Bydd y cwrs yn rhoi rhagor o fanylion SCC i chi ac yn eich helpu i benderfynu a ydych chi am symud ymlaen ai peidio. Os ydych yn penderfynu symud ymlaen, yna mae yna ddiwrnod o gwrs ar-lein, sy'n eich paratoi chi at fod yn ofalwr maeth. Byddwch hefyd yn cael eich cyfeirio at ddarllen / deunydd ar-lein ychwanegol er mwyn sicrhau eich bod wedi eich paratoi'n dda iawn. Yn ystod Cam 2 yn eich asesiad, bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn ymweld o leiaf unwaith gydag aelod o'r tîm maethu, a fydd yn siarad â chi am fod yn ofalwr maeth – mae hwn yn rhan o'ch asesiad maethu, ond mae asesu a pharatoi yn gweithio law yn llaw.

SIART LLIF 3: PARATOI A CHYMERADWYO

Byddwch wedi darllen am SCC ac wedi clywed amdano gan eich asiantaeth ac efallai'ch gweithiwr cymdeithasol



Pryd fydda' i'n cwrdd â rhieni'r plentyn ac a fydd hyn yn ddiogel?

Fel gofalwr maeth SCC, bydd disgwyl i chi gwrdd â rhieni'r plentyn a datblygu perthynas gyda nhw wrth i chi drosglwyddo'r plentyn a chasglu'r plentyn ar ddechrau a diwedd sesiynau cyswllt. Mae llawer o ofalwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod i adnabod rhieni yn ystod yr amser hwn, ac os ydynt yn mynd ymlaen i fabwysiadu'r plentyn, maent yn teimlo bod ganddynt lawer mwy o wybodaeth werthfawr a phersonol i'w rhannu gyda'r plentyn.

Rhan o'r broses atgyfeirio wrth ystyried plentyn ar gyfer lleoliad SCC yw asesiad risg mewn perthynas â'r rhieni - a fyddent yn risg i chi fel gofalwyr? Os yw rhieni'n debygol o fod yn risg, yna efallai na fydd y lleoliad SCC yn addas; byddai unrhyw risgiau posibl yn cael eu trafod yn drylwyr gyda chi a byddech yn cael cymorth os ydych yn penderfynu symud ymlaen gyda'r paru

Beth fydd rhieni'n ei wybod amdana' i?

Er y byddwch yn cwrdd â rhieni'r plentyn ac yn dod i'w 'nabod, bydd ganddynt wybodaeth gyfyngedig amdanoch chi. Byddant yn gwybod beth yw eich enwau cyntaf, ond nid eich cyfenwau. Ni fyddant yn gwybod eich cyfeiriad nac unrhyw wybodaeth bersonol arall amdanoch chi. Gwneir pob ymdrech i gadw'ch gwybodaeth yn gyfrinachol; er enghraifft bydd y bag sydd gennych ar gyfer sesiynau cyswllt, gyda dillad, teganau, cewynnau ayb. yn cael ei gadw at y diben hwnnw yn unig fel na fyddwch yn gadael unrhyw beth a allai ddatgelu gwybodaeth amdanoch yn y bag mewn camgymeriad (er enghraifft derbynneb o siop).

A fydda' i'n cael absenoldeb a thâl mabwysiadu, ac os felly, pryd?

Byddwch yn gymwys i gael absenoldeb a thâl mabwysiadu statudol o'r amser y caiff y plentyn ei leoli gyda chi, er nad yw hwn yn lleoliad mabwysiadu. Byddwch hefyd yn cael lwfans maethu yn ystod yr amser yr ydych yn ofalwr maeth. Mae mwyafrif gofalwyr yn cynilo'r tâl statudol ar gyfer y cyfnod pan fydd y lleoliad yn symud o fod yn lleoliad maeth i leoliad mabwysiadu.

Beth os oes gen i blant yn barod; naill ai plant biolegol neu blant wedi'u mabwysiadu?

Mae teuluoedd yn dod yn ofalwyr SCC pan fydd ganddynt blant yn barod. Edrychir ar bob teulu'n unigol. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod o waith ymchwil, yw bod plant sydd eisoes yn y teulu yn cael eu harwain gan yr oedolion wrth fyw gyda'r ansicrwydd y gallai'r plentyn ddod yn aelod parhaol o'ch teulu, a derbyn, fel teulu, eich bod yn darparu cartref cariadus a diogel yn ystod y cyfnod y mae ar y plentyn ei angen. Yn ystod eich asesiad, os ydych yn ystyried dod yn ofalwr SCC, byddwch yn gallu trafod eich plant eich hun a'r goblygiadau ar eu cyfer nhw, yn enwedig os ydych yn ystyried cymryd brawd neu chwaer ieuengach plentyn sydd wedi'i fabwysiadu.

Pa gefnogaeth fydd ar gael i mi?

Eich prif ffynhonnell cymorth a chefnogaeth fydd y gweithiwr cymdeithasol canfod teulu a'r tîm yn y cydweithrediad mabwysiadu ranbarthol sydd wedi'ch asesu a'ch cymeradwyo. Byddant yn rhoi cyngor a chymorth i chi yn yr un ffordd â lleoliad mabwysiadu prif ffrwd, ond ar yr un pryd yn gweithio gyda chi i gydnabod ansicrwydd y lleoliad. Byddwch hefyd yn cael cymorth gan y tîm maethu ar gyfer eich tasgau maethu penodol, gan gynnwys hwyluso trefniadau cyswllt gyda'r teulu biolegol. Bydd hyn i gyd yn cael ei archwilio'n fanylach yn ystod eich hyfforddiant.

SIART LLIF 4: CYSYLLTU, PARU A LLEOLI

Asiantaeth fabwysiadu

Asiantaeth faethu

ALl y Plentyn

Plentyn / plant yn cael ei / eu nodi fel un / rai sy'n addas ar gyfer SCC a'u hatgyfeirio at wasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol. Mae eich gweithiwr cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth am y plentyn / plant. Byddwch yn cael gwybod cymaint â phosibl, ond mae'n debygol y bydd gwybodaeth anhysbys a rhai cwestiynau na ellir eu hateb ar y cam hwn.

Os ydych yn credu efallai y byddwch yn gallu gofalu am y plentyn/plant ac eisiau gwybod mwy, bydd eich gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn cysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Os yw'r ddau weithiwr cymdeithasol yn penderfynu symud ymlaen, trefnir ymweld â'ch cartref er mwyn trafod ymhellach, a byddwch i gyd yn cytuno p'un ai i symud ymlaen ai peidio. Bydd cyflymder y camau nesaf yn dibynnu ar bob achos. Mae rhai'n symud yn gyflym iawn, ac i eraill mae yna gyfnod o aros e.e. os nad yw'r plentyn wedi cael ei eni eto neu os ydyw yn yr ysbyty. Efallai y byddwch yn dechrau eich absenoldeb mabwysiadu cyn i'r plentyn symud i mewn gyda chi, os ydych yn ymweld â'r ysbyty'n rheolaidd er enghraifft

Mae eich gweithiwr cymdeithasol yn llenwi'r gwaith papur cysylltu a pharu gyda chi

Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'r gweithiwr cymdeithasol maethu

Cytuno ar y trefniadau ar gyfer cefnogi'r lleoliad ar ôl i'r plentyn symud i mewn

Lleolir y plentyn gyda chi fel gofalwyr SCC

Cytundeb gofalwr maeth
Ffurflen awdurdod dirprwyedig
Cytundeb cyswllt
Lwfans Maethu

Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn rhoi mwyafrif y cymorth i chi mewn cytundeb â'r gweithiwr cymdeithasol maethu

Mae'r gweithiwr cymdeithasol maethu yn goruchwylio'r lleoliad maethu mewn cytundeb â'ch gweithiwr cymdeithasol

Gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn cynnal ymweliadau ac yn gyfrifol am drefniadau cyswllt

Ailuno â'r teulu
Mae'r lleoliad SCC gyda chi'n dod i ben wrth i chi gefnogi symudiad y plentyn nôl at y teulu. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn eich cefnogi

Rydych yn cymryd amser allan i brosesu'r golled a phan fyddwch chi'n barod, bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn siarad â chi am y camau nesaf

Cytuno ar y Cynllun Gofal Terfynol

Cynllun ar gyfer Mabwysiadu
Cwblhau a diweddaru'r fframwaith a'r gwaith papur ar gyfer Paru

Rydych yn mynd i banel Paru gyda'ch gweithiwr cymdeithasol. Y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr asiantaeth yn dod i benderfyniad

Rydych yn cyflwyno'ch ymddiswyddiad fel gofalwr maeth i'r darparwr gwasanaethau maethu enwebedig

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.adoptcymru.com/sefydlogrwydd-cynnar-cymru**

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 409 Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW

F: 029 2087 3927
www.adoptcymru.com

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

AFA Cymru
Uned G14, Ty Antur
Navigation Parc,
Abercynon CF45 4SN

F: 02920 761155
www. afacymru.org